Papur Bro Abertawe

# WILIA

RHIFYN 457 MEDI 2023 | AM DDIM

## DATHU CANT HARRI CLARKE JONES

-HEINI GRUFFUDD

Daeth yn agos at gant o bobl ynghyd yng nghlwb rygbi Abertawe i ddathu pen blwydd Harri Clarke yn gant oed.

Rhodd ei ferch Sian grynodeb o'i yrfa. Yn wreiddiol o Gwmgors, daeth i weithio i Fanc Lloyds. Wedi symud i Abertawe cafodd gyngor Dr Gwent Jones, meddai Harri, i ymuno â phob cymdeithas Gymraeg yn y dref.

Bu Harri'n flaenllaw maes o law gyda Chymdeithas y Ddrama Gymraeg, daeth yn ddiacon yn eglwys Bethel, bu'n aelod cyson o'r Clwb Cinio a chymerodd ran amlwg yn yr ymgyrch i gael ysgol gynradd Gymraeg i Orllewin Abertawe.







Yn ifanc roedd Harri'n chwaraewr rygbi chwim a bu'n gefnogwr cyson i glwb rygbi Abertawe.

Yn sgil ei waith gyda'r banc daeth yn drysorydd gofalus i'r cymdeithasau Cymraeg.

Yn y dathliad roedd chwech o'i wyrion ac un deg tri o'i orwyrion.

Wrth ddiolch i'r mynychwyr, meddai Harri bod ei ffrindiau yno i gyd, ond un, a oedd yn ei feddwl bob dydd, gan gyfeirio at ei Val, ei ddiweddar wraig, y bu'n briod â hi am 63 o flynyddoedd.

## YSGOLORIAETH I DRI

-CYMDEITHAS DRAMA GYMRAEG ABERTAWE


Mae'n bleser gan Gymdeithas Drama Gymraeg Abertawe gyhoeddi canlyniad Ysgoloriaeth y Gymdeithas am 2023.

Mewn blwyddyn o geisiadau uchel iawn eu safon penderfynodd y panel gwobrwyo - Ioan Hefin, Elinor Wyn Reynolds ac Euros Lyn - gynnig tair ysgoloriaeth i dri sydd ag uchelgais bersonol gwahanol iawn i'w gilydd ym myd y ddrama.

Daw Shauna Langford-Hopkins o Beddau ger Pontypridd. Wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn drama ym Mhrifysgol Caerwysg, mae ar fin cychwyn cwrs meistr blwyddyn mewn perffromio yn Academi Mountview Llundain, gyda'i bryd ar ddyfodol ym maes theatr gerddorol. Mae eisoes wedi magu cryn brofiad mewn nifer o gynyrchiadau cerdd a dawns.







Mae Gruffydd Rhys Evans o Gapel Bangor ger Aberystwyth newydd orffen ei addysg uwchradd yn Ysgol Penweddig ac am fynd ymlaen i astudio actio yn academi RADA (Cwrs BA tair blynedd), yr unig Gymro i lwyddo i ennill lle o blith amcangyfrif o 4,500 o geisiadau eleni.

Merch o Efailisaf, Pontypridd yw Beca Roberts ac yn ymgeisydd unigryw am ysgoloriaeth Abertawe Mae am ddilyn gyrfa ym myd gwisgoedd, gan briodi'i chariad tuag at decstiliau a'r theatr. Hi oedd dylunydd gwisgoedd cynhyrchiad Ysgol Garth Olwg yn ddiweddar a chafodd brofiad gwaith gyda Chwmni Opera Cymru a chwmni gwisgoedd theatr mwyaf Cymru, Marigolds. Mae'n cychwyn ar gwrs tair blynedd BA yn Ysgol Cerdd a Drama'r Guildhall yn Llundain ym mis Medi.

Ysgoloriaeth yr un i dri felly - a llongyfarchiadau i'r tri oddi wrth Gymdeithas Drama Gymraeg Abertawe.

## ENILLWYR EISTEDDFOD O ABERTAWE

-HENI GRUFFUDD


Cafodd sawl gwobr yn eisteddfod Llŷn ac Eifionydd eu hennill gan drigolion Abertawe. Y llwyddiant mwyaf amlwg oedd un Alan Llwyd o Dreforys, yn ennill y gadair am y drydedd waith, 50 mlynedd ar ôl iddo ei hennill am y tro cyntaf.

Enillodd Alan hefyd ar y soned a'r englyn. Enillydd arall oedd John Michael WIlliams, o West Cross, a enillodd am yr ail waith yn yr adran wyddoniaeth am erthygl Gymraeg. Dewisodd ysgrifennu am y transistor fel dyfais bwysicaf y can mlynedd diwethaf.

## THE MOONLIT MR SPRING

-ROBIN CAMPBELL

Mae'r awdur lleol, Robin Campbell, newydd ryddhau ei ail nofel, The Moonlit Mr Spring! Mae'n gomedi tywyll wedi ei lleoli ar gyrion Abertawe - bachwch eich copi yn Siop Tŷ Tawe!




## ADRAN PONTARDDULAIS

-LUNED JONES

Bydd Adran Pontarddulais yn ail-ddechrau 02/10/23.

Croeso cynnes i aelodau newydd!




## LLEISIAU LLIW

-LUNED JONES

Sesiwn blasu Cor Lleisiau Lliw- nos Lun, 11/09. Croeso cynnes i bawb!




## AIL-LANSIO CÔR TŶ TAWE

-HEINI GRUFFUDD

Bydd Côr Tŷ Tawe yn ail-lansio nos Fercher, 13 Medi, am 7.

Croeso i siaradwyr a dysgwyr!




## TRIP CYMDEITHAS GYMRAEG ABERTAWE I'R BONT

-GARETH RICHARDS

Ar brynhawn Iau, 20 Gorffennaf teithiodd aelodau'r Gymdeithas i bentref cyfagos Pontarddulais er mwyn dod i adnabod yr ardal yn well. Wedi gair o groeso gan y Parchg Llewelyn Picton Jones, gweinidog Hope-Siloh arweiniwyd ni o gwmpas y pentref gan Eric Jones, ysgrifennydd yr eglwys. Diddorol oedd cael yr hanes y gweithfeydd tunplat y steshion dren ac ymgyrchoedd Rebecca yn lleol.

Roedd Gwen Jones, gwraig Eric, wedi paratoi cyfres o ffilmiau a lluniau o'r ardal ar gyfer yr aelodau nad oedd am gerdded. Ar ôl i'r cerddwyr ddychwelyd cawsom gyfle i gymdeithasu dros de prynhawn blasus a baratowyd gan aelodau Hooe-Siloh.



Cyn i ni ymadael siaradodd Jennifer Clarke am addysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn y fro, a disgrifiodd Marie-Lynne Jones bywyd a gwaith plant yr Ysgol Sul a'r pobl ifainc. Adroddodd y cefndir i'r murlun hardd a baratowyd ganddynt mewn cydweithrediad â'r artist lleol, Rhys Padarn. Ar ran y Gymdeithas diolchodd David Gwyn John i Eric am y trefniadau ac i aelodau Hope-Siloh am y croeso arbennig a estynnwyd i ni.




Ym mis Medi rydym yn cynnal ein Swper Cynhaeaf yng Nghlwb Golff Langland ac yn edrych ymlaen at gael cwmni'r hynafgwr bywiog Harri Clarke Jones yno. Mae Harri wedi bod yn aelod o'r Gymdeithas ers y cychwyn yn 2006 ac ym mis Awst fe ddathlodd ei benblwydd yn 100 oed.

## ALLDAITH BRYN TAWE I MOROCCO
-HELEDD CLARKE

Cafodd rai myfyrwyr o Fryn Tawe'r cyfle i ymweld â Morocco yn ddiweddar. Aethpwyd ar y daith bythefnos o hyd gyda chwmni World Challenge.

Ar ôl glanio yng ngwres Marrakesh, cafwyd cyfle i ymlwybro'r ddinas cyn anelu am fynyddoedd yr Atlas a wynebu'r her o ddringo mynydd uchaf gogledd Affrica, Jebel Toubkal, sydd ag uchder o 4167 o fetrau. Ar ol 4 diwrnod yn mynydda, aeth y criw i bentref Tizi N'oucheg, rhyw ddwy awr i ffwrdd o Marrakesh. Tra yno, bu'r myfyrwyr yn helpu'r bobl leol drwy adeiladu heolydd a walydd er mwyn gwella diogelwch y pentref. Roeddem yn ddiolchgar iawn am yr holl fwyd a thê a gafwyd wrth weithio.

Yn ogystal â hyn, cafwyd y cyfle i chwarae pêl-droed gyda'r nos yn erbyn timau'r pentref! Naf i ddim rhannu sgoriau'r gemau hyn!!

Cyn dychwelyd cafwyd diwrnod o siopa a mwynhau yn souks Marrakesh a gwledd o fwyd i orffen y daith. Heb os, profiad gwerthfawr a bythgofiadwy i'r myfyrwyr a'r staff!







## TAITH DISGYBLION BRYN TAWE I WLAD BELG
-CATRIN LYALL

Ym mis Gorffennaf aeth Adran y Gymraeg a'r Adran Gerdd ar daith i Wlad Belg am bedwar diwrnod. Ar ôl gadael ben fore a chael ein dal mewn traffig ofnadwy fe gyrhaeddon ni hostel De Lork ger Ypres yn hwyr nos Lun, Gorffennaf yr 17eg.

Taith o ardal Paschendaele oedd y weithgaredd ar gyfer y bore Mawrth. Cawsom ein tywys i Fynwent Essex Farm a gweld y gofeb i'r bardd John McCrae ac olion y gorsafoedd triniaethau. Heb os fodd bynag, uchafbwynt y bore Mawrth oedd ymweld â Mynwent Artillery Wood a chynnal seremoni ger bedd Hedd Wyn. Oddi yno aethon ni ymlaen at y gofeb i'r milwyr Cymreig a mynwent enfawr Tyne Cot.

Y prynhawn hwnnw cawsom gyfle i ymweld ag amgueddfa In Flanders' Field, amgueddfa arbennig iawn. Wedi hynny roedd cyfle am hufen ia, a diolch am nawdd caredig gan Castell Howell ac Optegydd Norma Davies am hyn!

Yna daeth y cyfle i'r côr a'r offerynwyr berfformio ar y sgwar yn Ypres. Tynnon ni dipyn o dyrfa a daeth newyddiadurwr lleol i wrando, gan fynd ati wedyn i sgwennu pwt ar gyfer papur lleol. Ymlaen wedyn i siop siocled Leonidas ac roedd pawb wrth eu boddau yn llenwi eu bagiau a gwario eu ewros! Gyda'r nos aethon ni yn ôl i Ypres er mwyn gwylio seremoni y Last Post a mwynhau ychydig o amser rhydd yn y dref hardd.





Ddydd Mercher cafwyd taith o amgylch ardal y Somme, a chawsom ein tywys i gofeb y milwyr Cymreig ger Coedwig Mametz, ac yna ymlaen i gofeb enfawr Thiepval, Lochnagar crater a'r fynwent i'r milwyr o Ganada yn Newfoundland Park. Wedi hynny dychwelon ni i Albert lle roedd y côr a'r offerynwyr am berfformio... ond weithiodd pethau ddim yn union fel roedden nhw i fod i'w wneud! Bydd rhaid i chi holi un o'r disgyblion os ydych chi am glywed beth yn union ddigwyddodd tu allan i'r eglwys yn Albert! Yn ôl â ni wedyn i De Lork er mwyn paratoi ar gyfer y perfformiad gyda'r nos lle byddai'r côr, dan arweiniad Mr Alun Williams a Miss Nerys Williams, a'r offerynwyr dan arweiniad Mrs Claire Holt, yn perfformio yn seremoni'r Last Post. Wedi ein swper anelon ni yn ôl am Ypres lle roedd y dyrfa eisoes yn dechrau ymgasglu.Pan ddaeth hi'n 8 o'r gloch tawelodd pawb a dechreuodd y sermoni. Profiad a hanner i'r disgyblion a'r staff, ac roedd ambell un yn emosiynol iawn. Ewch draw i'n cyfrif instagram er mwyn cael gweld fideo o'r perfformiad.

Ddydd Iau ar ôl pacio popeth a chyn anelu'n ôl am Calais fe gawson ni fore yn Brugge a thaith ar y gamlas – ac wrth gwrs cyfle am waffl neu hufen ia! Yn ystod y daith cafodd sawl un o'r disgyblion gyfle i ymweld â beddau perthnasau, profiad dirdynnol iawn iddyn nhw.

Taith fythgofiadwy i bawb ac roedden ni fel staff wedi mwynhau'n fawr yn nghwmni criw arbennig iawn o ddisgyblion. Pob dymuniad da i'r disgyblion a oedd ar eu taith olaf gyda Bryn Tawe. Ymlaen â ni i daith arall yn haf 2024!


## DATHLU TREFTADAETH WERIN ABERTAWE

-TOMOS JONES, PRIF SWYDDOG

Mae Menter Iaith Abertawe yn falch o gyhoeddi prosiect newydd mewn partneriaeth â Trac Cymru i ddathlu treftadaeth cerddoriaeth werin yn ardal Abertawe.

Bydd sesiynau misol newydd i blant a phobl ifanc 16 a iau yn dechrau ar safle Tŷ Tawe yng nghanol y ddinas ym mis Medi gyda'r bwriad o drosglwyddo'r traddodiad gwerin i'r genhedlaeth nesaf. Bydd y sesiynau yn cael eu cynnal ar ail brynhawn Sul pob mis ac yn cael eu harwain gan gerddorion gwerin o fri megis Angharad Jenkins a Rhodri Davies. Gall y rhai sy'n mynychu yn ddod â'u hofferynnau i ddysgu a chwarae alawon gwerin Cymreig mewn awyrgylch hwyl ac anffurfiol. Bydd y sesiwn gyntaf yn cael ei chynnal ddydd Sul y 10fed o Fedi rhwng 14:00 a 16:00. Mae croeso cynnes i bawb a bydd nifer cyfyngedig o offerynnau ar gael i'w benthyg ar y safle.

Dywedodd Angharad Jenkins – "Dwi mor falch bod Menter Abertawe yn cychwyn ar y sesiynau gwerin yma i blant. Doedd dim byd fel hyn ar gael pan o'n i'n tyfu lan. Daeth fy niddordeb i mewn cerddoriaeth gwerin gan fy rhieni. Trwy'r gweithdai hyn, gallwn sicrhau bod y cyfle i ddysgu, cyd-chwarae a mwynhau mewn awyrgylch hwyliog ac anffurfiol yn agored i unrhyw un. A thrwy hynny, bydd y genhedlaeth nesaf yn dysgu'r alawon sy'n cymaint rhan o'n treftadaeth a'n diwylliant gwerin."




Bydd y sesiynau newydd i blant a phobl ifanc yn rhedeg ochr yn ochr gyda'r sesiwn werin reolaidd sy'n cael ei chynnal ar ail nos Wener pob mis yn yr un lleoliad. Mae'r sesiynau yma'n digwydd yn ardal bar Tŷ Tawe rhwng 19:00 ac 23:00 ac yn addas ar gyfer pobl sy'n 16 ac yn hŷn. Mae croeso i bawb ymuno â'r sesiynau yma, a bydd cerddorion gwadd yn ymuno yn ystod y flwyddyn - cadwch olwg ar gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Menter Iaith Abertawe ar gyfer y newyddion diweddaraf.




Cefnogir y sesiynau yma gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn ogystal â Trac Cymru, menter datblygu traddodiadau gwerin Cymru.

Dywedodd Jordan Price Williams o Trac Cymru - "Mae'r sesiwn werin wedi bod wrth galon cerddoriaeth draddodiadol ers yr adfywiad gwerin yn y 70au. Sesiynau Gwerin Cymreig yw'r cyfle i ddathlu a chymryd rhan mewn cerddoriaeth sydd wedi cael ei chwarae yng Nghymru ers cannoedd o flynyddoedd. Mae'r sesiwn yn ffordd anffurfiol a hwyliog o ddysgu alawon newydd, dysgu gan gerddorion eraill, a rhannu cariad at ddiwylliant traddodiadol Cymru a'r iaith Gymraeg."

O ganlyniad i bartneriaeth ehangach rhwng Menter Iaith Abertawe a Trac Cymru bydd nifer o ddigwyddiadau amgen ar draws yr ardal dros y misoedd nesaf, gan gynnwys y digwyddiad Sadwrn Acwstig tu allan i dafarn y Railway yng Nghilâ ar ddydd Sadwrn y 9fed o Fedi. Yn dilyn digwyddiadau llwyddiannus blaenorol ar y safle, bydd y prynhawn yma o gerddoriaeth acwstig yn agored i bob oedran ac yn rhad ac am ddim i fynychu. Bydd y prynhawn yn cynnwys setiau gan oreuon y sîn werin gyfoes gan gynnwys Bwca, Catrin O'Neill, Gwilym Bowen Rhys, Melda Lois, a Plu.




-




Bydd yna hefyd sesiwn werin ychwanegol ar safle Tŷ Tawe ar nos Sadwrn y 23ain o Fedi i ddathlu'r Diwrnod Gwerin Ewrop cyntaf. Mae Diwrnod Gwerin Ewrop yn brosiect newydd wedi ei sefydlu a chydlynu gan Rhwydwaith Gwerin Ewrop (EFN) a chaiff ei gynnal ar ddiwrnod y gyhydnos hydrefol yn hemisffer y gogledd. Mae'r diwrnod wedi ei greu gyda'r bwriad o'i sefydlu fel diwrnod allweddol yn y calendrau blynyddol, a bydd y digwyddiad yn Abertawe yn cynnwys cerddorion gwadd.

Ar nos Sadwrn y 30ain o Fedi, bydd Tecwyn Ifan yn ymweld â'r brif neuadd ddigwyddiadau yn Nhŷ Tawe. Mae Tecwyn Ifan yn un o gerddorion mwyaf dylanwadol Cymru. Ffurfiodd y grwpiau Ac Eraill a Perlau Tâf cyn dechrau ar yrfa hir a llwyddiannus fel artist unigol. Rhyddhaodd ei albwm cyntaf, Y Dref Wen ym 1977 - record sy'n cael ei chydnabod fel un o glasuron mwyaf yr iaith Gymraeg. Dros y blynyddoedd rhyddhaodd llwyth o ganeuon a ddaeth yn glasuron gan gynnwys 'Y Dref Wen', 'Bytholwyrdd', a 'Ofergoelion' i enwi dim ond llond llaw. Bydd Dafydd Owain a Lily Beau yn cefnogi ar y noson,.

## YNYS YN DYCHWELYD I ABERTAWE

Yn dilyn setiau yn y Bunkhouse ac fel rhan o'r Ŵyl Croeso eleni, mae Ynys yn dychwelyd i Abertawe ym mis Rhagfyr ar gyfer set band llawn!





## GŴYL YMYLOL ABERTAWE

Mae Band Pres Llareggub Brass Band yn ymweld ag Abertawe fel rhan o Gŵyl Ymylol Abertawe! Gyda chefnogaeth gan Mr Phormula + Francis Rees.




## GEMAU CYMRU

Byddwn yn darlledu gemau pêl-droed a rygbi Cymru yn fyw o Dŷ Tawe trwy'r Hydref! Dewch draw am beint ac i gymdeithasu tra'n mwynhau bach o chwaraeon!




## COFFI A CHLONC

Galwch draw i Dŷ Tawe ar fore dydd Iau am siawns i sgwrsio am ymarfer eich Cymraeg!




## YMUNA Â PHWYLLGOR RHEOLI Y FENTER

Rydym yn chwilio am unigolion brwdfrydig ac egnïol i wirfoddoli ar bwyllgor rheoli Menter Iaith Abertawe. Cyfle gwych i gyfrannu at ddatblygiad yr iaith Gymraeg yn ardal Abertawe!
Croesawn geisiadau o unrhyw faes arbenigaeth.
Cyfraniad amser - cyfarfod bwrdd chwarterol (un cyfarfod pob 3 mis).
Mwy o wybodaeth: swyddfa@menterabertawe.org




## DYDDIADAU I'R DYDDIADUR!

09.09 - Sadwrn Acwstig (The Railway Inn)

15.09 - Angel Hotel + The Bad Electric + Ffredi Blino + Head Noise (Elysium)

28.09 - Gwilym + Y Cledrau + Parisa Fouladi (Bunkhouse)

30.09 - Tecwyn Ifan (Tŷ Tawe) DIM TOCYNNAU AR ÔL

04.10 - The Gentle Good + Angharad Jenkins (Man geni Dylan Thomas) DIM TOCYNNAU AR ÔL

07.10 - SFF23: Band Pres Llareggub + Mr Phormula + Francis Rees (Tŷ Tawe)

20.10 - Gai Toms a'r Atomau + Ble? (Tŷ Tawe)

03.11 - HMS Morris (Elysium)

04.11 - DnA, Delyth & Angharad Jenkins, (Forge Fach, Clydach)

11.11 - Gŵyl NAWR (Tŷ Tawe)

01.12 - Ynys (Tŷ Tawe)

Tocynnau:www.ticketsource.co.uk/menter-iaith-abertawe

Diolch yn fawr i'n cyfranwyr ar gyfer rhifyn Medi.

Menter Iaith Abertawe sydd nawr yn coladu straeon Wilia. Plîs danfonwch unrhyw beth a allai fod o ddiddordeb i'n darllenwyr ar gyfer rhifyn Hydref erbyn Medi 25ain trwy ebostio Anys at:

datblygu@menterabertawe.org

Neu anfonwch eich lluniau/straeon at dudalen Facebook Wilia.

CYMRAEG
Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

MENTER IAITH ABERTAWE X ELYSIUM YN CYFLWYNO

# ANGEL HOTEL

## THE BAD ELECTRIC + FFREDI BLINO + HEAD NOISE

## 15.09.23 ELYSIUM, ABERTAWE



19:00 / £5
MENTERABERTAWE.ORG

dysgucymraeg.cymru
learnwelsh.cymru
Ardal Bae Abertawe
Swansea Bay Region

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

menter iaith abertawe